# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion CYP (3)-11-08

**Dyddiad: Dydd Mercher 9 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9.45am – 12.00pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Christine Chapman, Cwm Cynon
Ann Jones, Dyffryn Clwyd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Tom Jackson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc
Kathryn Potter, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

Grwp Pobl Ifanc (a drefnir gan fudiad Achub y Plant)

Grwp Gofalwyr Ifanc (a drefnir gan NCH Cymru)

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle. Roedd Ann Jones yn dirprwyo ar ei rhan.

### Eitem 2: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 7

2.1 Cymeradwywyd y cynnig gan y pwyllgor.

### Eitem 3: Rhaglen waith y pwyllgor

Papur: CYP(3)-11-08(p.1)

3.1 Nodwyd y rhaglen waith arfaethedig gan y pwyllgor.

**Camau i'w cymryd:**

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ganfod pam fod llai o fabanod yn derbyn y pigiad atgyfnerthu rhag llid yr ymennydd a roddir, fel arfer, pan fydd y babi tua 13 mis oed. Bydd yn ceisio canfod a yw hyn yn duedd a pham bod hyn yn digwydd. Bydd hefyd yn gofyn beth y gellir ei wneud i gynyddu'r nifer sy'n derbyn y pigiad atgyfnerthu. Ar ôl cael ymateb y Gweinidog, bydd y pwyllgor yn penderfynu a fydd yn ymgymryd ag ymchwiliad byr i'r mater hwn yn yr hydref.

Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros Adfywio i ganfod pa mor effeithiol y bu/ y bydd y broses o integreiddio'r rhaglenni tlodi plant i'r rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf/ Cymunedau Nesaf. Ar ôl cael ymateb y Dirprwy Weinidog bydd y pwyllgor yn penderfynu a fydd yn cynnwys y mater hwn yn yr ymchwiliadau parhaus i dlodi plant a gynhelir yn ystod tymor yr hydref a thymor yr haf 2009.

### Eitem 4: Tlodi plant: Ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru – Gweithredu ar Dlodi Plant

Papur: CYP(3)-11-08(p.2)

4.1 Cytunodd yr Aelodau i beidio â chyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Pwyllgor gan eu bod am graffu ar y ddogfen derfynol. Cytunodd yr Aelodau i gyflwyno ymatebion unigol.

**Cam i'w gymryd:**

Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i'w hysbysu am benderfyniad y pwyllgor i beidio â chyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

## Eitem 5: Ymchwiliad i dlodi plant

5.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau a ofynnwyd iddynt gan yr Aelodau.

**Cam i'w gymryd:**

Y Clerc i ganfod a oes cymorthdaliadau ar gael i helpu pobl ifanc â chyfrifoldebau gofal i dalu ffioedd dysgu prifysgol ac yna'n anfon y wybodaeth berthnasol at hwylusydd y Grwp Pobl Ifanc a drefnir gan NCH Cymru.

**Eitem 7: Sesiwn breifat**

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2008**